

Etholiadau cyngorau  
cymuned yng Nghymru

# Canllawiau i ymgeiswyr

Rhan 5 o 6 – Eich hawl i  
fynd i ddigwyddiadau  
etholiadol allweddol

Ionawr 2022

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i etholiadau cyngorau cymuned yn unig. Nid yw'n berthnasol i etholiadau sirol, etholiadau bwrdeistrefi sirol nac etholiadau maerol. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer pob etholiad lleol o'n gwefan yn:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneq-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant>

# Cynnwys

<b>Gwybodaeth hanfodol.....</b>	<b>3</b>
<b>O ran etholiadau trefnedig, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiad sy'n cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer y pleidleisiau hynny, y gallwch ei llwytho o'n gwefan. ....</b>	<b>3</b>
Agor pleidleisiau post .....	4
Beth yw pleidleisio drwy'r post? .....	4
Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys? ..	5
Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud? .....	5
Dyletswydd i gadw cyfrinachedd.....	6
Pryd fydd pleidleisiau post yn cael eu hagor a sut fyddwch chi'n gwybod pryd fydd sesiwn yn cael ei chynnal? .....	6
Siart llif o broses y sesiwn agor .....	7
Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd.....	9
Gorsafoedd pleidleisio.....	9
Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?.....	9
Oriau agor gorsafoedd pleidleisio .....	10
Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio.....	10
Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud? .....	10
Cadw cyfrinachedd y bleidlais.....	11
Beth yw'r broses bleidleisio arferol? .....	12
Casglu'r pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio.....	13
Rhifwyr.....	13
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben? .....	13
Y cyfrif .....	14
Pwy all fynd i'r cyfrif? .....	14
Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud? .....	14
Pryd a ble fydd y cyfrif yn digwydd?.....	15
Sut fydd y pleidleisiau yn cael eu cyfrif .....	15
Beth os na fydd y bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?...	17
Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi? .....	19
<b>Gwybodaeth ategol .....</b>	<b>20</b>
Papurau pleidleisio amheus .....	20

# Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar fynd i brosesau etholiadol allweddol mewn etholiad cyngor cymuned yng Nghymru.

Rhoddir gwybodaeth ategol, a all fod yn berthnasol i rai ymgeiswyr yn unig, yng nghefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau ategol trwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu trwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn Lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein [Dogfen trosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'dylech/dylid' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu rheoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau yn y ddogfen hon yn rhai generig. Rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiad generig ar ein gwefan](#). Unwaith y bydd is-etholiad yn cael ei galw, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

O ran etholiadau trefnedig, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiad sy'n cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer y pleidleisiau hynny, y gallwch ei llwytho o'n [gwefan](#).

Ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal ar neu cyn 4 Mai 2022, 18 neu hŷn yw'r oedran ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal ar neu ar ôl 5 Mai 2022, 16 neu hŷn fydd yr oedran ar gyfer pleidleisio.

# 4

## Agor pleidleisiau post

1.1 Mae gennych chi a rhywun a benodwyd gennych chi i fynd yn eich lle hawl i fynd i agoriad y pleidleisiau post a ddychwelwyd.<sup>1</sup> Yn ychwanegol, gallwch benodi asiantiaid i fynd i sesiynau agor ar eich rhan.<sup>2</sup> Gweler [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) neu [Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid](#) am fanylion sut i benodi'r asiantiaid hyn.

Nid oes gan ymgeiswyr ac asiantiaid pleidleisiau drwy'r post hawl i fynd i **gyhoeddi** pleidleisiau post

## Beth yw pleidleisio drwy'r post?

1.2 Gall pobl sy'n 16 oed neu hŷn (neu 18 oed neu hŷn ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal cyn 5 Mai 2022)<sup>3</sup> sydd wedi cofrestru i bleidleisio, neu sydd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio, wneud cais am bleidlais drwy'r post mewn etholiadau cynghorau cymuned trwy gyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Rhaid i'r cais gael ei dderbyn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn y bleidlais.<sup>4</sup> Gall y rhai sydd wedi cael eu penodi i bleidleisio fel dirprwy i rywun arall hefyd wneud cais am bleidlais bost trwy ymgeisio cyn 5pm ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn y bleidlais. Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau am unrhyw reswm.

1.3 Bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys papur pleidleisio a datganiad pleidlais drwy'r post yn cael eu hanfon at etholwyr o tua pythefnos cyn diwrnod y bleidlais. Bydd swp terfynol o becynnau pleidleisio post wedyn yn cael eu hanfon at etholwyr sydd wedi cofrestru'n agos at y dyddiad cau ar gyfer cofrestru unwaith i'w henwau gael eu hychwanegu at y diweddariad olaf o'r gofrestr ar y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais.

1.4 Bydd etholwyr wedyn yn marcio eu papur pleidleisio, yn cwblhau eu datganiad pleidleisio drwy'r post drwy roi eu llofnod a'u dyddiad geni, ac yn eu dychwelyd at y Swyddog Canlyniadau cyn i'r gorsafodded pleidleisio gau (h.y. 10pm ar y diwrnod pleidleisio).

Os bydd yr etholiad yn cael ei gyfuno â phleidlais arall, gall y Swyddog Canlyniadau fod wedi penderfynu cyfuno'r gwaith o gyhoeddi pleidleisiau post.

Os hynny, bydd y pecyn pleidlais drwy'r post hefyd yn cynnwys y papur pleidleisio ar gyfer y digwyddiad(au) etholiadol eraill.

## Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys?

- **Amlen A** yw'r amlen y mae'r etholwr yn dychwelyd ei bapur pleidleisio ynddi. Mae'n cael ei nodi â'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'
- **Amlen B** yw'r amlen y mae'r etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd yr amlen papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post ynddi. Mae'n cael ei nodi â'r llythyren 'B' a chyfeiriad y Swyddog Canlyniadau
- Mae'r **datganiad pleidleisio drwy'r post** yn cynnwys enw'r etholwr, rhif y papur pleidleisio a roddwyd iddo, cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio drwy'r post a gofod i'r etholwr lofnodi a rhoi ei ddyddiad geni
- **Y papur pleidleisio**

## Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud?

1.5 Mae asiant pleidleisio drwy'r post yn cael mynd i sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, sy'n cael eu rhedeg gan y Swyddog Canlyniadau. Ym mhob sesiwn agor bydd y Swyddog Canlyniadau yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a roddir gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a roddwyd o'r blaen ac sydd yn y cofnodion. Os na fyddant yn cyfateb, bydd y bleidlais bost yn cael ei gwrthod.

1.6 Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post hawl i wyllo, ond dim i ymyrryd yn y broses hon. Ond gall asiant pleidleisio drwy'r post, wrthwynebu penderfyniad Swyddog Canlyniadau i wrthod pleidlais bost.<sup>5</sup> Ni fydd hyn yn effeithio ar benderfyniad y Swyddog Canlyniadau, ond bydd y Swyddog Canlyniadau yn cofnodi unrhyw wrthwynebiadau trwy nodi ar y datganiad pleidleisio drwy'r post 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'.

1.7 Yn yr un modd â'ch asiantiaid pleidleisiau drwy'r post, mae gennych chi a'r unigolyn yr ydych wedi ei benodi i fynd yno ar eich rhan hefyd hawl i wrthwynebu gwrthodiad.

# 6

1.8 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn esbonio'r broses agor pleidleisiau post i chi ac efallai yn rhoi gwybodaeth i chi am y gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar yr hyn y gallwch ac na allwch ei wneud yn y sesiwn. Dylech gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Canlyniadau wedi eu rhoi.

## Dyletswydd i gadw cyfrinachedd

1.9 Bydd papurau pleidleisio yn cael eu cadw wyneb i lawr drwy gydol y sesiwn agor pleidleisiau post.<sup>6</sup> Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor beidio â cheisio gweld sut mae unrhyw bapurau pleidleisio unigol wedi'u marcio. Mae'n dilyn felly **na cheir cadw tali o sut mae papurau pleidleisio wedi'u marcio.**

1.10 Hefyd, ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor pleidleisiau post geisio edrych ar farciau adnabod neu rifau ar bapurau pleidleisio, na datgelu sut y mae unrhyw bapur pleidleisio penodol wedi cael ei farcio, na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a gafwyd o'r sesiwn.<sup>7</sup> Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy ddiderfyn, neu gall gael ei garcharu am hyd at chwe mis.

## Pryd fydd pleidleisiau post yn cael eu hagog a sut fyddwch chi'n gwybod pryd fydd sesiwn yn cael ei chynnal?

1.11 Mae'n debygol y bydd nifer o sesiynau agor yn digwydd cyn diwrnod y bleidlais, yn ogystal ag ar y diwrnod pleidleisio ei hun.

1.12 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau roi 48 awr o rybudd o leiaf i'r ymgeiswyr yn nodi pryd a ble y bydd y sesiynau yn digwydd.<sup>8</sup> Bydd hefyd yn dweud faint o asiantiaid pleidleisio drwy'r post fydd yn cael bod yn bresennol ym mhob sesiwn.

1.13 Bydd sesiwn agor derfynol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben i agor unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd mewn gorsafoedd pleidleisio. Gall y sesiwn hon gael ei chynnal yn lleoliad y cyfrif

Am ragor o wybodaeth gweler: [Gofynion cyfrinachedd - pleidleisio drwy'r post i ymgeiswyr ac asiantiaid yng Nghymru](#)

neu yn rhywle arall. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn eich hysbysu o'r lleoliad ar gyfer y sesiwn agor olaf.

## Siart llif o broses y sesiwn agor

1.14 Gellid crynhoi'r broses agor pleidleisiau post fel a ganlyn:

- 1 Pleidleisiau post yn dod i'r sesiwn agor mewn blychau pleidleisio
- 2 Yr amlenni allanol (amlen B) yn cael eu tynnu allan a'u cyfrif
- 3 Cyfanswm y nifer o amlenni allanol yn cael eu cofnodi
- 4 Amlenni allanol (amlen B) yn cael eu rhannu rhwng timau o staff agor
- 5 Y staff yn agor pob amlen allanol (amlen B) ac yn tynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post a'r amlen papur pleidleisio wedi'i selio (amlen A) allan
- 6 Y staff yn gwirio bod y rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhif ar amlen A
- 7 Os bydd y rhifau yn cyfateb, bydd y staff yn gwirio bod yr etholwr wedi rhoi llofnod a dyddiad geni (heb wirio mai nhw yw'r etholwr ar y cam hwn). Mae datganiadau pleidleisio drwy'r post heb lofnod a dyddiad geni yn peri i'r bleidlais bost gael ei gwrthod.

Mae nifer fechan iawn o bleidleiswyr nad oes angen iddynt lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post. Bydd y pleidleiswyr yma wedi cael hepgoriad oherwydd nad ydynt yn medru llofnodi neu roi llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Bydd y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir i etholwyr o'r fath yn dangos hyn yn glir.

# 8

- 8 Os bydd y datganiad **neu'r** amlen papur pleidleisio ar goll, neu os na fydd y rhifau ar y datganiad a'r amlen papur pleidleisio yn cyfateb, bydd y dogfennau yn cael eu rhoi o'r neilltu, eu cofnodi a'u cadw mewn pecynnau diogel
- 9 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau ddilysu'r dyddiadau geni a'r llofnodion a roddwyd ar y datganiadau

Rhaid cadw papurau pleidleisio wyneb i lawr drwy gydol y broses hon.
- 10 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau fod yn fodlon bod y dyddiadau geni a'r llofnodion ar y datganiadau yn cyfateb i'r rhai a roddwyd yn flaenorol ac a gadwyd

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyfateb y dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad wedi ei gwblhau yn gywir a'i dderbyn erbyn i'r bleidlais gau.
- 11 Wedi dilysu'r llofnodion a'r dyddiadau geni, bydd y datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cael eu symud oddi ar y byrddau
- 12 Bydd y staff yn agor pob amlen papur pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papur pleidleisio allan

Rhaid cadw papurau pleidleisio wyneb i lawr drwy gydol y broses hon.
- 13 Bydd y staff yn gwirio bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar yr amlen papur pleidleisio (amlen A)
- 14 Bydd papurau pleidleisio dilys (**nid** pleidleisiau) yn cael eu cyfrif a chofnodir y cyfanswm
- 15 Rhoddir yr holl papurau pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio yn ddiogel cyn cael eu cludo i leoliad y cyfrif i'w cyfrif ar ôl i'r pleidleisio gau

Caiff papurau pleidleisio annyls eu rhoi o'r neilltu a'u storio mewn pecynnau diogel.

## Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys ac a wrthodwyd

1.15 Oni bai bod hepgoriad wedi ei ganiatáu, bydd y Swyddog Canlyniadau yn gwrthod pob datganiad pleidleisio drwy'r post os bydd llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll neu os bydd llofnod a/neu ddyddiad geni ddim yn cyfateb i'r un a roddwyd yn flaenorol gan yr etholwr ac sydd ar gofnod.

1.16 Mae datganiadau a wrthodwyd yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y papur pleidleisio neu amlen papur pleidleisio perthnasol. Maent yn cael eu nodi â 'gwrthodwyd' ac fe'u dangosir i'r asiantiaid sy'n bresennol.

1.17 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau i wrthod pleidlais bost ac, os byddant yn gwneud hynny, bydd y geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad' yn cael eu hychwanegu ati. Ond, mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau yn derfynol a bydd y bleidlais bost yn parhau yn un a wrthodwyd.

## Gorsafoedd pleidleisio

1.18 Gallwch chi wyllo'r gweithrediadau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.<sup>9</sup> Yn ychwanegol, gallwch benodi asiantiaid i fynd i orsafoedd pleidleisio ar eich rhan.<sup>10</sup> Gweler [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) neu [Rhan 2b Sefyll fel ymgeisydd plaid](#) am fanylion sut i benodi asiantiaid pleidleisio.

Yr unig etholwyr y bydd angen iddynt ddod â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i bleidleisio yw'r rhai sydd wedi cofrestru yn ddiennw oherwydd risg i'w diogelwch.

## Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.19 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio. Gall unrhyw unigolyn sydd ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiad cyngor plwyf neu gymuned, oni bai:

- ei fod yn bleidleisiwr drwy'r post cofrestredig

# 10

- ei fod yn bleidleisiwr drwy ddirprwy cofrestredig a bod ei ddirprwy eisoes wedi pleidleisio drosto neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar ei ran drwy'r post
- nad yw yn 16 oed neu hŷn ar ddiwrnod y bleidlais
- ei fod wedi cofrestru fel etholwr tramor

1.20 Bydd etholwyr yn derbyn cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad yn dweud ble a phryd i bleidleisio. Nid oes angen i etholwyr fynd â'u cerdyn pleidleisio i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

1.21 Ni ellir rhoi papur pleidleisio i bleidleiswyr drwy'r post cofrestredig yn yr orsaf bleidleisio, ond gallant ddychwelyd pecyn pleidleisio drwy'r post i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais. Fel arall, gallant ddychwelyd y bleidlais bost i unrhyw orsaf bleidleisio yn y gymuned (neu ward oes oes wardiau yn y gymuned) neu â llaw i'r Swyddog Canlyniadau yn y swyddfa etholiadau.

1.22 Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff yr orsaf bleidleisio ac nid eu rhoi yn y blwch pleidleisio.

## Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

1.23 Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar ddiwrnod y bleidlais rhwng 7am a 10pm.

## Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio

1.24 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau roi hysbysiad cyhoeddus o leoliad y gorsafoedd pleidleisio erbyn y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais.<sup>11</sup> Bydd yn rhoi copi o'r hysbysiad hwn i ymgeisywr yn fuan wedyn.

## Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud?

1.25 Mae gan asiantiaid pleidleisio nifer o rolau pwysig i'w chwarae ar ddiwrnod y bleidlais. Gallant:

Lle bo'r papur pleidleisio yn cynnwys papur pleidleisio ar gyfer digwyddiad etholiadol sy'n cael ei gynnal ar yr un diwrnod, bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybodaeth o ran ble gall etholwyr ddychwelyd eu becynnau pleidleisio post.

Bydd unrhyw bleidleiswyr sy'n aros mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm yn gallu pleidleisio, hyd yn oed os nad ydynt wedi derbyn papur pleidleisio

Er bod gan asiant pleidleisio hawl i wyllo'r bleidlais, nid oes raid iddo fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio cyn y gall y gweithdrefnau pleidleisio a chysylltiedig digwydd.

- fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio cyn i'r bleidlais agor i wyllo'r Swyddog Llywyddu yn dangos y blychau pleidleisio gwag cyn iddynt gael eu selio
- datgelu cam-bersonadu ac atal pobl rhag pleidleisio fwy nag unwaith mewn etholiad (heblaw fel dirprwyon)
- fod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio ar gais etholwr sydd angen help i farcio papur pleidleisio oherwydd anabledd neu anallu i ysgrifennu neu ddarllen
- roi adroddiad i chi am unrhyw weithgareddau amhriodol a chadw nodiadau, os bydd angen, ar gyfer rhoi tystiolaeth yn y llys
- fod yn bresennol pan fydd y pecynnau amrywiol o ddogfennau yn cael eu selio
- roi ei sêl ynghlwm wrth unrhyw becynnau a wnaed gan y Swyddog Llywyddu, gan gynnwys y blwch pleidleisio

**Cambersonadu** yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yr unigolyn hwnnw yn fyw, yn farw neu yn ffug).

Ni ellir rhoi sêl asiant pleidleisio ynghlwm wrth flychau pleidleisio ar gychwyn pleidlais nac yn ystod y bleidlais.

1.26 Gallwch chi hefyd wneud unrhyw beth y mae gan asiant pleidleisio hawl i'w wneud.<sup>12</sup>

## Cadw cyfrinachedd y bleidlais

1.27 Mae gan unrhyw un sy'n mynd i orsaf bleidleisio ddyletswydd i gadw cyfrinachedd y bleidlais.<sup>13</sup> Yn benodol, rhaid peidio â datgelu'r wybodaeth ganlynol:

- enw neu rif etholiadol pwy sydd wedi pleidleisio neu beidio â phleidleisio
- y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar y papur pleidleisio

1.28 Rhaid i unrhyw un sy'n mynd i orsaf bleidleisio beidio â cheisio casglu sut y mae pleidleisiwr wedi pleidleisio neu i bwy y maent ar fin pleidleisio iddo.

1.29 Gall asiant pleidleisio nodi ar ei gopi o'r gofrestr etholwyr y pleidleiswyr sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio. Os bydd yr asiant pleidleisio yn gadael yr orsaf bleidleisio yn ystod oriau'r pleidleisio, rhaid iddynt adael y copi wedi ei farcio o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio i sicrhau na fydd y gofynion cyfrinachedd yn cael eu torri.<sup>14</sup>

Am ragor o wybodaeth gweler: [Gofynion cyfrinachedd - pleidleisio drwy'r post i ymgeiswyr ac asiantiaid yng Nghymru](#)

# 12

1.30 Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy o hyd at £5,000, neu gall gael ei garcharu am hyd at chwe mis.

## Beth yw'r broses pleidleisio arferol?

1.31 Mae'r broses pleidleisio arferol mewn gorsaf pleidleisio yn syml a gellir ei chrynhai fel a ganlyn:

### Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn...

- gofyn i bleidleiswyr am eu henw a'u cyfeiriad, ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth gyferbyn â chofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr
- galw rhif ac enw'r etholwr
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr yn nesaf at y rhif ar y papur pleidleisio sydd i'w roi
- sicrhau bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)
- plygu'r papur pleidleisio ac yna ei drosglwyddo i'r pleidleisiwr **heb ei blygu** fel ei fod yn medru gweld yr holl ddewisiadau ar y papur pleidleisio

### Bydd y pleidleisiwr yn...

- marcio'r papur pleidleisio mewn man preifat yn y bwth pleidleisio
- plygu'r papur pleidleisio a dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu
- rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadael yr orsaf pleidleisio

1.32 Gall y Swyddog Llywyddu gynorthwyo unrhyw un sy'n methu marcio'r papur pleidleisio ei hun.<sup>15</sup> Fel arall, gall pleidleisiwr ddod â rhywun y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo gydag ef/hi i'w gynorthwyo wrth farcio ei bleidlais.<sup>16</sup> Mewn etholiadau ar neu ar ôl 5 Mai 2022, rhaid i'r person sy'n cynorthwyo'r pleidleisiwr fod naill ai'n berthynas

Pan fydd yr etholiad wedi ei gyfuno â digwyddiad etholiadol arall, bydd staff yr orsaf pleidleisio yn rhoi papurau pleidleisio ar gyfer pob digwyddiad etholiadol.

Gall digwyddiadau etholiadol gwahanol fod â gofynion pleidleisio gwahanol, felly gall etholwr weithiau beidio â bod yn gymwys i bleidleisio ym mhob un o'r pleidleisiau sy'n digwydd.

Pan fydd pleidleisiau yn cael eu cyfuno, gellir defnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer pob cystadleuaeth neu un blwch pleidleisio ar gyfer pob cystadleuaeth ar wahân.

Ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal ar neu ar ôl 5 Mai 2022, 16 neu hŷn fydd yr oedran ar gyfer pleidleisio

agos dros 18 yn 16 oed neu hŷn . Gall person gynorthwyo dau berson ar y mwyaf yn yr etholiad.

## Casglu'r pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio

1.33 Gall y Swyddog Canlyniadau drefnu ar gyfer casglu unrhyw bleidleisiau post y mae etholwyr wedi eu trosglwyddo yn yr orsaf bleidleisio trwy gydol diwrnod y bleidlais. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiant sy'n bresennol ychwanegu ei sêl ei hun at y pecyn os bydd yn dymuno.

## Rhifwyr

1.34 Gwirfoddolwyr i ymgeiswyr yw rhifwyr sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau pleidleiswyr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio. Gallant ddynodi cefnogwyr tebygol sydd heb bleidleisio a'u hannog i bleidleisio cyn i'r bleidlais gau.

1.35 Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol o gwbl a gall pleidleiswyr wrthod rhoi gwybodaeth iddynt.

1.36 Rydym wedi cynhyrchu [taflen ffeithiau o beth i'w wneud a pheidio â'i wneud i rifwyr](#), yn ogystal â [chyfarwyddyd ar weithgareddau rhifwyr sy'n fwy cynhwysfawr](#). Nod y canllawiau yw sicrhau bod pawb yn gwybod y union beth sydd a beth sydd ddim yn dderbyniol ac fe'u dyluniwyd i hyrwyddo safonau ymddygiad priodol. Gall y Swyddog Canlyniadau hefyd roi ei fersiwn ei hun o'r canllawiau i'r rhifwyr.

Y Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad. Os bydd yn bryderus am weithgareddau rhifwyr, gall ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r ymddygiad y cytunwyd arno neu adael y man pleidleisio.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben?

1.37 Mae'r blwch pleidleisio yn cael ei selio gan y Swyddog Llywyddu a gall asiantiaid pleidleisio ychwanegu eu sêl eu hunain os dymunant.<sup>17</sup> Ar ôl i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r

# 14

holl waith papur, mae'r blwch pleidleisio wedi'i selio yn cael ei gludo i leoliad y cyfrif.

## Y cyfrif

### Pwy all fynd i'r cyfrif?

1.38 Mae gennych chi hawl i wyllo'r cyfrif.<sup>18</sup> Yn ychwanegol, gallwch wahodd un unigolyn arall i'r cyfrif a gallwch hefyd benodi asiantiaid i fynd i'r cyfrif ar eich rhan.<sup>19</sup>

Gweler [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) neu [Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid](#) am fanylion ar y nifer o asiantiaid cyfrif y gallwch benodi a sut i'w penodi.

### Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud?

1.39 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y cyfrif:

- Maent yn gwyllo'r broses gyfrif ac yn gwneud yn siŵr ei bod yn gywir.
- Gallant dynnu sylw staff y cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus.
- Os byddant yn anghytuno â phenderfyniad gan y Swyddog Canlyniadau i wrthod papur pleidleisio, gall yr asiant cyfrif ofyn i'r Swyddog Canlyniadau farcio'r papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y gwrthodiad".
- Os bydd y cyfrif yn cael ei ohirio am unrhyw reswm, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu sêl pan fydd y Swyddog Canlyniadau yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni.

1.40 Gallwch chi wneud unrhyw beth y mae gan asiant cyfrif hawl i'w wneud.<sup>20</sup>

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gofynion cyfrinachedd - [dilysu a'r cyfrif ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yng Nghymru](#)

## Dyletswydd i gynnal cyfrinachedd

1.41 Mae dyletswydd ar unrhyw un sy'n mynychu'r cyfrif i gynnal cyfrinachedd y cyfrif.<sup>21</sup> Yn benodol, ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu:

- gael neu geisio cael y rhif neu unrhyw farc adnabod unigryw arall ar gefn unrhyw bapur pleidleisio
- gyfathrebu unrhyw wybodaeth a gafwyd yn y cyfrif o ran y ffordd y rhoddir unrhyw bleidlais ar unrhyw bapur pleidleisio penodol

## Pryd a ble fydd y cyfrif yn digwydd?

1.42 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn eich hysbysu o'r union amser a lleoliad.

## Sut fydd y pleidleisiau yn cael eu cyfrif

### Derbyn

1

Mae staff y Swyddog Canlyniadau yn cludo'r blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif

2

Bydd staff y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y blychau pleidleisio wrth iddynt gyrraedd lleoliad y cyfrif

### Dilysu

3

Gwagir y blychau pleidleisio ar fyrddau a dangosir y blychau gwag i'r asiantiaid

Etholiadau cynghorau a phwylltyswyr > [Mingelswyr >](#)  
Rhan 5 o 6

Pan fydd yr etholiad wedi ei gyfuno â digwyddiad etholiadol arall, bydd yr holl flychau pleidleisio yn cael eu dilysu cyn y bydd unrhyw ganlyniadau yn cael eu datgan.

Gall un blwch pleidleisio fod ar gyfer yr holl etholiadau neu gellir cael blwch ar wahân i bob un. Ym mhob achos bydd y papurau pleidleisio yn cael eu trefnu yn gystadlaethau gwahanol.

Bydd unrhyw bapur pleidleisio a geir yn y blwch pleidleisio 'anghywir' yn dal yn ddilys a bydd yn cael ei symud i'r blwch cywir yn ystod y dilysu.

# 16

4 Mae staff yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf bleidleisio

5 Bydd staff yn gwirio bod y nifer o bapurau pleidleisio yn cyfateb i'r nifer o bapurau a roddwyd, fel sydd wedi ei gofnodi yng nghyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu

6 Dangosir y nifer o bapurau pleidleisio a ddilyswyd i asiantiaid etholiad a chyfrif

7 Mae'r Swyddog Canlyniadau yn pennu'r rhesymau am unrhyw anghysondeb ac yn cynhyrchu cyfanswm terfynol a ddilyswyd

8 Mae'r Swyddog Canlyniadau yn cynhyrchu datganiad o'r gwiriad. Gall asiantiaid wneud cais am gopi o'r datganiad hwn

## Cyfrif y pleidleisiau

9

Mae'r staff yn trefnu'r papurau pleidleisio yn ôl yr ymgeiswyr. Os bydd mwy nag un ymgeisydd yn cael ei ethol, gall y Swyddog Canlyniadau ddefnyddio dulliau gwahanol o gadarnhau nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd, e.e. dalennau cyfrif neu'r dull 'sgert wellt'

10

Mae staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd

11

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhannu'r canlyniad dros dro gyda chi a'r asiantiaid. Gallwch chi neu eich asiant etholiad ofyn i'r Swyddog Canlyniadau ail gyfrif y pleidleisiau

12

Gall y Swyddog Canlyniadau wrthod ail gyfrif os bydd yn meddwl bod y cais yn afresymol

Os na fydd y cyfrif yn digwydd yn syth ar ôl dilysu, bydd y blychau a ddilyswyd yn cael eu storio yn ddiogel. Gall ymgeiswyr ac asiantiaid roi eu sêl ynghlwm wrth y blychau os dymunant.

## Beth os na fydd y bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?

1.43 Ni fydd papur pleidleisio yn cael ei gyfrif os:

- na fydd wedi ei farcio
- na fydd yn cynnwys y marc swyddogol
- bydd yn cynnwys pleidleisiau i fwy o ymgeiswyr nag sydd o leoedd gwag
- bydd yn cynnwys unrhyw farc neu ysgrifen a all olygu y gellid adnabod y pleidleisiwr
- nad yw'n dynodi bwriad y pleidleisiwr yn bendant

# 18

1.44 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau lunio datganiad yn dangos y nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.<sup>22</sup>

1.45 Os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir ar bapur pleidleisio ac na ellir adnabod y pleidleisiwr trwy unrhyw farc neu ysgrifen, ni fydd yn ddi-rym os bydd pleidlais wedi ei nodi:

- yn rhywle heblaw'r man priodol
- trwy gyfrwng heblaw croes (e.e. tic)
- gyda mwy nag un marc

1.46 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau nodi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio sy'n cael ei wrthod. Rhaid iddo ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y gwrthodiad" os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau. Am fwy o fanylion ar farnu ar bapurau pleidleisio amheus, gweler paragraff **1.48**.

### Pleidleisiau cyfartal

12

Os bydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un nifer o bleidleisiau, ac y byddai pleidlais arall i unrhyw un ohonynt yn gweld yr ymgeisydd yn cael ei ethol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau benderfynu rhyngddynt trwy fwrw coelbren.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn benderfynu ar y dull o fwrw coelbren.

### Datgan y canlyniad

13

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn datgan bod yr ymgeisydd (neu ymgeiswyr pan fydd mwy nag un sedd) gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau wedi ei ethol

Mae rhai Swyddogion Canlyniadau yn caniatáu i ymgeiswyr wneud areithiau ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan. Gwiriwch y trefniadau gyda'ch Swyddog Canlyniadau.

14

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi rhybudd cyhoeddus o'r canlyniad.

15

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyhoeddi hysbysiad gydag enw pob ymgeisydd a etholwyd, y nifer o bleidleisiau i bob ymgeisydd, a'r nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.

### Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi?

1.47 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau selio holl ddogfennau'r etholiad, ychwanegu disgrifiad o gynnwys pob pecyn a'u hanfon ymlaen at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.<sup>23</sup>

Am fanylion beth sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi gweler: [Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad](#)

# Gwybodaeth ategol

## Papurau pleidleisio amheus

1.48 Er mwyn cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau, rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar sut i farnu ar bleidleisiau ar bapurau pleidleisio sy'n ymddangos yn amheus. Yn ychwanegol at ein canllawiau Ymdrin [â phapurau pleidleisio amheus](#), rydym wedi cynhyrchu matiau bwrdd papurau pleidleisio amheus ar gyfer wardiau [un aelod](#), [dau aelod](#) a [thri aelod](#) y gall Swyddogion Canlyniadau gyfeirio atynt yn y cyfrif.

1.49 Mae'r enghreifftiau a roddir yn y dogfennau hyn yn seiliedig ar y rheolau etholiad neu wedi eu cymryd o gyfraith achos flaenorol. Sylwer, tra bydd y dogfennau hyn yn cynnig canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, mae pob Swyddog Canlyniadau yn y pen draw yn gyfrifol am wneud penderfyniad ar bapurau pleidleisio unigol. Mae ei benderfyniad i wrthod papur pleidleisio penodol yn ystod y cyfrif neu'r ail gyfrif yn derfynol ac ni ellir ei adolygu ond trwy ddeiseb etholiad ar ôl datgan y canlyniad. Am ragor o wybodaeth ar ddeisebau etholiad, gweler Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad.

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 68

<sup>2</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 69

<sup>3</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 2(1A) (mewnosodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, adran 2(1)(b))

<sup>4</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 56 (1)

<sup>5</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 85A (4)

<sup>6</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 84 (6)

<sup>7</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 66(4)

<sup>8</sup> Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, Rheoliad 80

<sup>9</sup> Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (Rheolau Cymunedau 2021), Rheol 37

<sup>10</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 33

- 
- <sup>11</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 1 a 27(3)
  - <sup>12</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 34
  - <sup>13</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 66(1) (3) a (6)
  - <sup>14</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 66(1)
  - <sup>15</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 43
  - <sup>16</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 44
  - <sup>17</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 51(2)
  - <sup>18</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 53
  - <sup>19</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 33
  - <sup>20</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 34
  - <sup>21</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 66(2) a (6)
  - <sup>22</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 56(7) ac (8)
  - <sup>23</sup> Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 62